

Mr Andrew Jarrett
Cyfarwyddwr Gofal Cymdeithasol, Iechyd a Thai
Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot
Canolfan Ddinesig
Castell-nedd
SA11 3QZ

Dyddiad: 03 Awst 2020

Annwyl Andrew Jarrett,

**Adolygiad Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) o Berfformiad Awdurdodau Lleol
Ebrill 2019 – Mawrth 2020**

Mae'r cod ymarfer ar gyfer adolygu gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol, a gyhoeddwyd ym mis Ebrill 2019, yn amlinellu ein bwriad i ysgrifennu a chyhoeddi llythyr blynyddol i awdurdodau lleol a fydd yn:

- rhoi adborth ar weithgarwch arolygu a gwerthuso perfformiad a gwblhawyd gennym yn ystod y flwyddyn
- adrodd ar y cynnydd y mae'r awdurdod lleol wedi'i wneud o ran gweithredu argymhellion arolygiadau a/neu adolygiadau ymarfer plant ac oedolion
- amlinellu ein blaenraglen waith

Mae'r llythyr hwn yn crynhoi ein hadolygiad o berfformiad Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot wrth gyflawni ei swyddogaethau statudol o ran gwasanaethau cymdeithasol rhwng mis Ebrill 2019 a mis Mawrth 2020.

Rydym yn cydnabod nad oedd modd i ni gwblhau'r cylch cyfarfod adolygu perfformiad blynyddol llawn eleni o ganlyniad i'r amgylchiadau digynsail sy'n gysylltiedig â COVID-19.

Fodd bynnag, credwn fod buddion sylweddol o hyd o ran nodi a thynnu sylw'r awdurdod lleol a'i bartneriaid at y meysydd o cryfderau ac gwelliannau sy'n ofynnol. Bwriad y llythyr yw cynorthwyo'r awdurdod lleol a'i bartneriaid i wella'n barhaol.

Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)
Swyddfa Llywodraeth Cymru
Sarn Mynach
Cyffordd Llandudno
LL31 9RZ
www.arolygiaethgofal.cymru

☎ 0300 790 0126
✉ ciw@gov.wales

Care Inspectorate Wales (CIW)
Welsh Government Office
Sarn Mynach
Llandudno Junction
LL31 9RZ
www.careinspectorate.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae'n dilyn pedair egwyddor Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, a'n dull cynyddol gydweithredol a seiliedig ar gryfderau o hybu gwelliant.

Caiff cynnwys y llythyr hwn ei lywio gan y gweithgarwch gwerthuso perfformiad a gynhaliwyd gan yr arolygiaeth yn ystod y flwyddyn. Mae hyn wedi cynnwys:

- arolygu gwasanaethau i oedolion hŷn yn ystod mis Mawrth 2019
- gweithgarwch â phwyslais penodol (gwasanaethau plant): cynllunio gofal parhaol, Chwefror 2020
- gweithgarwch â phwyslais penodol (gwasanaethau oedolion): diogelu, Chwefror 2020
- adolygu'r cynllun gweithredu diogelu
- adolygu ymateb yr awdurdod lleol i AGC mewn perthynas â'r adolygiad o gynlluniau gofal a chymorth i blant â phrofiad o ofal sydd wedi symud lleoliad neu tarfwyd ar eu lleoliad

Yn ystod y flwyddyn, rydym wedi bod yn cynnal trafodaethau â chi wrth i'r holl weithgareddau a restrir uchod fynd rhagddynt, ac felly mae cynnwys ein llythyr perfformiad blynyddol yn adlewyrchiad cywir o'n canfyddiadau parhaus a rennir â chi yn gyson.

Crynodeb o gryfderau a meysydd i'w gwella yn unol ag egwyddorion Deddf 2014

Llesiant

Mae gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot dîm uwch-reolwyr sefydlog sy'n arfer rhychwant eang o gyfrifoldeb ar draws disgyblaethau perthnasol. Mae'r gwasanaethau oedolion a phlant yn cael budd o gymorth gwleidyddol a chorfforaethol da ac mae dealltwriaeth a rennir o'r cyfeiriad a'r ysgogiad sydd eu hangen er mwyn sicrhau bod y gwasanaethau yn gwella canlyniadau i bobl yn effeithiol.

Mae'r awdurdod lleol wedi parhau i weithio'n galed, yng nghyd-destun Deddf 2014, ac yn ystod cyfnod o gyfyngiadau ariannol ac arbedion cyllidebau er mwyn ail-lunio ei wasanaethau. Mae cynlluniau uchelgeisiol yr awdurdod lleol yn nodi ei ymrwymiad i wella llesiant ac annibyniaeth pobl.

Edrychodd gweithgarwch â phwyslais penodol AGC ym maes gwasanaethau oedolion ar gynnydd yr awdurdod lleol wrth roi'r cynllun gwella o ganlyniad i'r arolygiad o oedolion hŷn, a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2019, ar waith, yn enwedig o ran diogelu. Mae gan yr awdurdod lleol ddealltwriaeth dda o'i gryfderau ei hun a'i feysydd sy'n peri her, ac mae uwch swyddogion yn realistig am y cynnydd a wnaed a'r camau gweithredu pellach sydd eu hangen er mwyn datblygu ac ymgorffori eu gwelliannau ar ôl yr arolygiad. Mae rheolwyr yn ymwybodol o'r galw ar wasanaethau ac yn cydnabod y pwysau, gan gynnwys cymhlethdod achosion, llwythi gwaith a nifer rheolwyr.

Yn dilyn ei adolygiad systemau o wasanaethau oedolion, mae'r awdurdod lleol wedi datblygu ei gynlluniau ar gyfer ailstrwythuro gwasanaethau gofal cymdeithasol oedolion. Ers ein harolygiad, mae'r awdurdod lleol wedi gweithredu er mwyn cryfhau'r gydberthynas rhwng un pwynt cyswllt gwasanaethau oedolion (Gateway) a'r Tîm Diogelu Oedolion ac Adolygu Ansawdd, er mwyn sicrhau sgrinio adroddiadau ar gyfer oedolion sy'n wynebu risg

yn amserol ac argaeledd canllawiau proffesiynol a goruchwyliaeth rheolwyr o benderfyniadau am oedolion sy'n wynebu risg. Dylai cyflwyno mesurau sicrhau ansawdd newydd helpu i lywio cysondeb ac ansawdd yr ymateb diogelu.

Edrychodd ein gweithgarwch â phwyslais penodol diweddar mewn gwasanaethau plant ar drefniadau cynllunio gofal a chymorth, mewn perthynas â hybu sefydlogrwydd amserol a chanlyniadau da i blant a phobl ifanc. Mae Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol, Tai ac Iechyd a'r Pennaeth Gwasanaethau Plant yn aelodau o'r grŵp cynghori plant sy'n derbyn gofal gweinidogol ac yn cymryd rhan weithredol yn strategaeth Lleihau Nifer y Plant sy'n Derbyn Gofal Llywodraeth Cymru.

Mae gan yr awdurdod lleol boblogaeth plant sy'n derbyn gofal gymharol sefydlog ac mae'r gwasanaeth wedi datblygu nifer o fforymau sy'n cynnwys uwch swyddogion er mwyn cefnogi goruchwyliaeth gan y rheolwr a chysodeb trefniadau gwneud penderfyniadau mewn perthynas â phlant ar ymylon gofal a'r rhai sydd yn y system diogelu a derbyn gofal.

Mae'r awdurdod lleol wedi ceisio gwella atebolrwydd proffesiynol, er enghraifft ynghylch dechrau'r Amlinelliad Cyfraith Cyhoeddus (PLO) drwy gryfhau disgwyliaethau goruchwyllo achosion, cyflwyno proses ymgynghori prif swyddog ffurfiol a gofynion porth cyfreithiol clir. Gwelsom fod y trefniadau hyn yn rhoi cyfleoedd gwerthfawr ar gyfer her adeiladol, gan gynnwys cyfleoedd mewn perthynas ag ymyrraeth gynnar a rheoli risg. Mae rheolwyr yn ymwybodol bod angen gwella ymarfer a chynnal goruchwyliaeth fanwl mewn perthynas â chynllunio gofal parhaol i blant mewn lleoliadau teulu o dan drefniadau adran 76

Pobl

Defnyddir digwyddiadau ymgynghori ac ymgysylltu yn helaeth er mwyn llywio cyfeiriad gwasanaeth y gyfarwyddiaeth yn y dyfodol. Mae gwasanaethau cymdeithasol Castell-nedd Port Talbot yn nodi eu bod yn symud o gynllunio gwasanaethau i bobl tuag at gynllunio gwasanaethau gyda phobl. Ategir hyn gan Strategaethau Cyfranogiad ac Ymgysylltu i Blant ac Oedolion a ddatblygwyd yn ddiweddar.

Mae recriwtio a chadw staff yn dal yn faes parhaus sy'n hanfodol i fusnes, a chaiff y gwasanaeth ei gefnogi'n dda gan adnodd Adnoddau Dynol penodol. Mae'r awdurdod lleol wedi parhau i fabwysiadu dull 'tyfu eich hun' ac mae'n cael budd o weithlu ymrwymedig; mae'n ffodus bod ganddo gymysgedd sgiliau sy'n cynnwys gweithwyr cymdeithasol profiadol. Mae sgil a phrofiad rheolwyr gweithredol yn faes cydnabyddedig i'w ddatblygu.

Mae buddsoddiad yr awdurdod lleol mewn hyfforddiant ymarfer sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau, ledled gwasanaethau oedolion a phlant, yn helpu i feithrin y newid angenrheidiol mewn ethos a'r ffordd y mae'r staff yn mynd at eu gwaith gyda phobl.

Mae'n gadarnhaol bod yr awdurdod lleol wedi adnewyddu ei hyfforddiant galluedd meddyliol er mwyn gwella ymwybyddiaeth a dealltwriaeth ymarferwyr o'u cyfrifoldeb proffesiynol sylweddol wrth weithio gyda rhai o'r bobl fwyaf agored i niwed o bosibl, ac er mwyn paratoi ar gyfer rhoi Deddf Galluedd Meddyliol [Diwygio] 2019 a Trefniadau Amddiffyn Rhyddid (LPS).

Gwnaethom nodi fod templedi diogelu electronig newydd yn darparu awgrymiadau defnyddiol er mwyn casglu canlyniadau ar gyfer oedolion sy'n wynebu risg a gwelsom rai enghreifftiau da o weithwyr cymdeithasol yn gweithio gyda'r unigolyn ac yn eirioli ar ei ran. Fodd bynnag, er bod cyfleoedd cynyddol i bobl fynegi eu barn, mae angen defnydd mwy cyson o ddogfennaeth.

Dangosodd ein gweithgarwch â phwyslais penodol mewn gwasanaethau plant ddiwylliant hawliau plant. Gwelsom enghreifftiau o'r ymdrechion a wnaed i gynnal mwy o barhad i gydberthnasau gwaith cymdeithasol. Dywedodd rhieni a oedd yn rhan o'r broses cyn achos wrthym eu bod yn gwerthfawrogi'r ymdrechion a wnaed gan weithwyr proffesiynol i weithio gyda nhw a dywedwyd bod hyn yn gwneud gwahaniaeth.

Mae swyddogion Gwasanaethau Cymdeithasol sy'n gweithio gyda chydweithwyr corfforaethol yn parhau i atgyfnerthu trefniadau mewn perthynas â'r Gymraeg a Safonau'r Gymraeg yn unol â Fframwaith Strategol 'Mwy na Geiriau' Llywodraeth Cymru. Cadarnhaodd gwaith AGC yn yr awdurdod lleol bod y templedi electronig yn nodi dewis iaith pobl a bod y trefniadau hyn yn cael eu hadrodd drwy fframwaith perfformiad yr awdurdod lleol.

Rydym yn parhau i fonitro gweithrediad Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid sydd wedi nodi nad yw'r awdurdod lleol, yn yr un modd a llawer o rai eraill yng Nghymru, yn gallu bod yn sicr nad yw hawliau dynol pobl yn cael eu torri drwy gael eu hamddifadu o ryddid yn anghyfreithlon. Byddwn yn cyhoeddi ein cyd-adroddiad cenedlaethol ar y Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid maes o law.

Atal

Cadarnhaodd aelodau etholedig gynlluniau tair blynedd ar gyfer gwasanaethau oedolion a gwasanaethau plant, a ddaeth i rym ym mis Ebrill 2019.

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot wedi parhau i ddatblygu ei agenda 'Adeiladu Cymunedau Diogel a Chadarn', gan weithio mewn partneriaeth agos â phobl eraill berthnasol er mwyn sefydlu rhaglen Datblygu Cymunedol yn Seiliedig ar Asedau. Yn ystod ein harolygiad o wasanaethau oedolion hŷn clywsom gan bobl a oedd wedi cael budd o'r cymorth a ddarperir gan gydgysylltwyr awdurdod lleol i gael gafael ar weithgareddau cymunedol, a gan weithwyr proffesiynol a oedd yn cyfeirio at y gwasanaeth, yr oedd pob un ohonynt yn gwerthfawrogi'r adnodd; mae hyn yn allweddol er mwyn hybu annibyniaeth a lleihau ymysu cymdeithasol.

Mae cydleoliad y Porth Gwasanaethau Oedolion ac Un Pwynt Cyswllt plant a theuluoedd wedi cefnogi gweithio agosach rhwng trefniadau mynediad plant ac oedolion. Yn ystod ein gweithgarwch â phwyslais penodol, clywsom fod cyflwyno ffurflen adrodd/atgyfeirio risg un pwynt cyswllt integredig yn ddiweddar (ar draws gwasanaethau plant ac oedolion) wedi codi ymwybyddiaeth o ansawdd y wybodaeth sydd ei angen, er mwyn galluogi'r awdurdod lleol i wneud ymholiadau priodol a phenderfyniadau cynnar.

Mae gan y Tîm Diogelu ac Adolygu Ansawdd gysylltiadau effeithiol â'r Tîm Comisiynu ac mae hyn yn helpu i lywio gwaith comisiynu a monitro contractau mwy diogel. Cydgysylltwyr diogelu profiadol yn y tîm Diogelu ac Adolygu Ansawdd sy'n gyfrifol am oruchwylio a rheoli ymholiadau am oedolion sy'n wynebu risg, ac mae'r awdurdod lleol yn rhoi gwybod am berfformiad cadarnhaol mewn perthynas â chwblhau ymholiadau diogelu oedolion o fewn

saith diwrnod. Fodd bynnag, nid oedd defnyddio cronoleg fel y cofnod ar gyfer rhoi manylion y ffordd yr ymdriniwyd â'r ymholiad bob amser yn rhoi dadansoddiad digonol, a oedd yn ei gwneud yn anodd gwerthuso ansawdd y penderfyniadau a'r cynlluniau dilynol.

Mae gwasanaethau plant wedi parhau i gynnal eu sylw ar wasanaethau ymyrryd yn gynnar ac atal; mae wedi gweithio'n galed i ddod â gwasanaethau i wasanaethau plant a phobl ifanc yr awdurdod lleol, gan atgyfnerthu eu cysylltiadau presennol â gwasanaethau allanol ac asiantaethau partner. O fewn y sampl fach o achosion a adolygwyd, gwelsom rywfaint o dystiolaeth bod y gwasanaethau yn ceisio defnyddio ymyrraeth ataliol a bod hyn yn llwyddiannus, a bod trefniadau camu i lawr priodol ar waith. Mae'r awdurdod lleol yn datblygu systemau o hyd er mwyn deall a rhoi sicrwydd iddo'i hun o effaith ei ymyriadau cymorth cynnar a chymorth i deuluoedd.

Yn ystod 2018, roedd ein rhaglen waith yn canolbwyntio ar blant a phobl ifanc sydd wedi bod mewn gofal. Mae'r [adroddiad](#) ar gael ar ein gwefan. Mae'r canfyddiadau allweddol yn tynnu sylw at feysydd i'w gwella mewn perthynas â phroffil, digonolrwydd, ymarfer, partneriaethau, sefydlogrwydd, llywodraethu a rhianta corfforaethol. Mae llawer o'r meysydd i'w gwella a nodwyd gennym yn parhau i gael eu hystyried gan Grŵp Cynghori'r Gweinidog Llywodraeth Cymru ar gyfer gwella canlyniadau i blant a phobl ifanc sydd wedi cael profiad o ofal, ac rydym hefyd yn gobeithio y bydd awdurdodau lleol yn ystyried eu cyfraniad eu hunain at fynd i'r afael â'r canfyddiadau hyn.

Ym mis Rhagfyr 2019, ysgrifennodd AGC at bob awdurdod lleol yn gofyn am wybodaeth yn dilyn adroddiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ar blant sydd wedi cael profiad o ofal, yn benodol argymhelliad 5 sy'n ymwneud ag effeithiolrwydd ac amllder adolygiadau diwedd lleoliad. Cadarnhaodd ymateb yr awdurdod lleol fod ganddo amrywiaeth sefydledig o systemau ar waith er mwyn helpu i nodi ac atal achosion posibl o chwalu lleoliad, gan gynnwys defnyddio sefydlogrwydd lleoliad cynnar yn ogystal â chyfarfodydd tarfu er mwyn llywio gwaith cynllunio.

Partneriaeth

Mae trefniadau partneriaeth ar lefel leol a rhanbarthol yn parhau i ddatblygu ac aeddfedu. Yn gynyddol, gall uwch-swyddogion ddangos y ffordd y mae'r cysylltiadau rhwng eu cyfrifoldebau cyfarwyddiaeth gwahanol, gan gynnwys iechyd, tai a chyllid, yn cefnogi'r agenda gwasanaethau cymdeithasol ledled yr awdurdodau lleol. Mae dealltwriaeth ehangach o fuddion atal yn y gymuned a'r effaith negyddol bosibl ar bobl a chyllidebau pan fydd oedi wrth gynllunio gwasanaethau a darparu ymatebion neu os ydynt yn aneffeithiol. Mae uwch-reolwyr asiantaethau partner wedi dweud wrthym am amgylchedd sy'n fwy cydweithredol a chynhwysol.

Yn ystod ein harolygiad o wasanaethau oedolion, gwnaethom nodi'r ymrwymiad rhanbarthol a lleol i fodel ymarfer optimaidd, wedi'i ategu gan drefniadau integreiddio agosach â'r maes iechyd. Gwelsom dystiolaeth bod yr awdurdod lleol yn datblygu'r agenda hon drwy ailfodelu gwasanaethau a'i gynlluniau i sefydlu timau amlddisgyblaethol cymunedol wedi'u cydleo. Yn fwy diweddar, nodwyd bod yr awdurdod lleol wedi cwblhau gwelliannau â Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe, er mwyn datblygu llwybr oedolion sy'n wynebu risg mwy clir, gyda'r nod o sicrhau bod Tîm Diogelu Castell-nedd Port Talbot yn cael ei gydnabod fel yr arweinydd ar gyfer Atgyfeiriadau Oedolion sy'n Wynebu Risg.

Arweiniodd y gwaith o aildrefnu ffiniau byrddau iechyd ym mis Ebrill at newid ôl-troed rhanbarthol. Mae'r gwaith paratoi trwyadl a wnaed gan y partneriaid wedi lleihau achosion posibl o darfu, ac mae rhanbarth Gorllewin Morgannwg sydd wedi'i aildrefnu wedi gweld y newidiadau i'r ffiniau fel cyfle i atgyfnerthu ac arloesi ei drefniadau partneriaeth.

Mae'r awdurdod lleol yn aelod o'r byrddau rhanbarthol ac yn cyfrannu'n rhagweithiol atynt, ac mae agweddau ar agenda gwella a thrawsnewid yr awdurdod lleol yn cael eu datblygu drwy flaenoriaethau Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gorllewin Morgannwg a gwaith y Bwrdd Diogelu Rhanbarthol.

Cynllun Adolygu Perfformiad AGC ar gyfer 2020-2021

Roedd ein rhaglen arolygu thematig ar gyfer 2019-2020 yn canolbwyntio ar waith atal a hybu annibyniaeth i bobl hŷn ac i wasanaethau plant presennol. Ffocws yr arolygiad thematig presennol yw atal, partneriaethau a phrofiadau plant anabl. O ganlyniad i'r argyfwng presennol sy'n gysylltiedig â COVID-19, rydym wedi gohirio cyhoeddi ein hadroddiad ar wasanaethau pobl hŷn ac wedi gohirio'r holl weithgareddau sy'n ymwneud â'r adolygiad o gymorth i blant anabl. Byddwn yn rhoi gwybod i chi maes o law pryd rydym yn rhagweld y byddwn yn ailgychwyn ar ein harolygiadau.

Rydym yn disgwyl cyhoeddi'r adroddiad cenedlaethol ar wasanaethau pobl hŷn maes o law, a hoffem achub ar y cyfle hwn i ddiolch i chi am gyfraniad eich awdurdod lleol at hyn.

O ganlyniad i'r amgylchiadau hyn nad oedd modd eu rhagweld, rydym wrthi'n adolygu ac yn ystyried ein cynllun gwaith ar gyfer gweddill 2020-2021.

Cydweithiodd AGC ag Arolygiaeth Cwnstabiliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Mawrhydi, Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi, Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) ac Estyn i ddatblygu model ar gyfer arolygiad ar y cyd o drefniadau amddiffyn plant yng Nghymru. Cafodd y dull gweithredu hwn ei dreialu yn ystod hydref 2019. Mae hyn yn enghraifft gadarnhaol o ffyrdd newydd o weithio ledled Cymru, gan gynnig ymdrech wirioneddol i sicrhau cydweithio ac integreiddio mewn gwasanaethau cyhoeddus.

Byddwn yn parhau i weithio'n agos gyda Gofal Cymdeithasol Cymru i gefnogi gwelliannau mewn gwasanaethau gofal cymdeithasol.

Sylwer bod copi o'r llythyr hwn wedi cael ei anfon at gydweithwyr yn Archwilio Cymru, Estyn ac AGIC hefyd. Mae AGC yn gweithio'n agos gydag arolygiaethau partner i ystyried y safbwynt corfforaethol ehangach y mae gwasanaethau cymdeithasol yn gweithio ynddo, ynghyd â chyd-destun lleol ar gyfer perfformiad gwasanaethau cymdeithasol.

Byddwn yn cyhoeddi fersiwn derfynol y llythyr hwn ar ein gwefan.

Yn gywir,



Lou Bushell-Bauers
Pennaeth Arolygu Awdurdodau Lleol

Cc.
Archwilio Cymru
AGIC
Estyn